2009-10

Tachwedd 2010

Awdur: John Herniman

Cyf: 557A2010

# Llythyr Archwilio Blynyddol 2009-10

# Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Llythyr Manwl** | |
| **Defnyddiwyd adnoddau'r Awdurdod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol** | 6 |
| Paratowyd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2009-10 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond ni chytunwyd sut y dylid trin trafodion Awdurdodau Heddlu Cymru eto | 6 |
| Gweithredodd yr Awdurdod o fewn ei gyllideb refeniw ar gyfer 2009-10, ond mae'n wynebu heriau ariannol anodd yn y dyfodol | 7 |
| Roedd gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol | 8 |
| Roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn addas at y diben | 8 |
| **Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ategu'r defnydd effeithiol o adnoddau ond ceir gwendidau o ran rheolaethau o fewn y polisi adleoli uwch swyddogion** | 9 |
| Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 9 |
| Ceir gwendidau o ran y rheolaethau o fewn polisi adleoli uwch swyddogion yr Awdurdod | 9 |
| **Atodiadau** | |
| Casgliad ar drefniadau Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 11 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2009-10 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 12 |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy llythyr archwilio diwethaf | 13 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Heddlu Dyfed Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol (y Llythyr) hwn at aelodau Awdurdod Heddlu Dyfed Powys (yr Awdurdod) yn crynhoi'r casgliadau o'm harchwiliad ar gyfer 2009-10. Mae'n cyflwyno adroddiad i aelodau'r Awdurdod ynglŷn ag unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'm harchwiliad, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill. Nodwyd y gwaith y cyflwynir adroddiad arno yn y Llythyr hwn yn y Strategaeth Archwilio y cytunwyd arni ar gyfer 2009-10.
2. Ceir mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn, a chytunir arnynt, gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'w gweld yn Atodiad 3.
3. Nododd y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2009-10 y ffi archwilio arfaethedig, sef £71,918 (ynghyd â TAW). Dengys fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol ar gyfer 2009-10 fod ad-daliad o £1,895 yn ddyledus i'r Awdurdod mewn perthynas â'n hadolygiad o gyfrifon cynllun y Fenter Cyllid Preifat (PFI) yng Ngorsaf Heddlu Rhydaman.
4. Gwneir nifer o gyfeiriadau yn y Llythyr hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod). Mae hyn yn cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff a Archwilir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.
5. Cynlluniaf yr archwiliad ar sail risg, ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar eich risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r gwaith archwilio wedi'i strwythuro o amgylch elfennau allweddol fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod.
6. Casgliad fy ngwaith archwilio ariannol yw bod adnoddau'r Awdurdod wedi cael eu defnyddio'n gywir ym mhob ffordd berthnasol ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol yn 2009/10:
    - paratowyd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2009-10 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond ni chytunwyd sut y dylid trin trafodion Awdurdodau Heddlu Cymru eto;
    - gweithredodd yr Awdurdod o fewn ei gyllideb refeniw ar gyfer 2009-10, ond mae'n wynebu heriau ariannol anodd yn y dyfodol;
    - roedd gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol; ac
    - roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn addas at y diben.

7. Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ategu'r defnydd effeithiol o adnoddau ond ceir gwendidau o ran rheolaethau o fewn y polisi adleoli uwch swyddogion:

   - Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
   - cheir gwendidau o ran y rheolaethau o fewn polisi adleoli uwch swyddogion yr Awdurdod.

8. Cytunwyd ar y Llythyr hwn â'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ac fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu ar 6 Rhagfyr 2010.

9. Fy nod yw darparu archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Awdurdod ei hun. Rwyf yn cydnabod pa mor werthfawr yw eich cydweithrediad a'ch cymorth er mwyn cyrraedd y nod hwn a hoffwn ddiolch i chi am y cymorth a'r cydweithrediad a roddwyd yn ystod yr archwiliad.

John Herniman
Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

Dyddiad: Tachwedd 2010

## Defnyddiwyd adnoddau'r Awdurdod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol

10. Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol i'r Awdurdod roi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.
11. Fel archwilydd allanol yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn.

### Paratowyd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2009-10 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond ni chytunwyd sut y dylid trin trafodion Awdurdodau Heddlu Cymru eto

12. Cynhyrchodd yr Awdurdod ei ddatganiadau ariannol drafft erbyn 30 Mehefin 2010 ac fe'u cymeradwywyd cyn 30 Medi 2010, yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010.
13. Mae'n ofynnol i mi o dan Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r ‘rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (yr Awdurdod) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon.
14. Cyflwynwyd adroddiad ar y materion hyn i Awdurdod yr Heddlu ar 20 Medi 2010. Nodir y materion allweddol yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Gofynion adrodd ISA 260**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr endid. | Mae arferion cyfrifyddu'r Awdurdod yn gyffredinol gadarn ond mae problem o ran yr arfer cyfrifyddu mewn perthynas â dibrisiant y mae angen ymdrin â hi ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. |
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd. | Dim addasiadau i adroddiad yr archwilydd. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Ni chafwyd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd.<br>Nodwyd nifer o fân wallau a gwallau nad oeddent yn fân wallau neu addasiadau gofynnol eraill yn ystod yr archwiliad neu gan reolwyr, a gwnaed addasiadau priodol ym mhob achos. |

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Nodwyd un mater llywodraethu gennym sef y ffaith na chytunwyd ar sut y dylid cyfrifyddu am drafodion Awdurdodau Heddlu Cymru yn natganiadau ariannol pob awdurdod yr heddlu eto. |

15. Ar 30 Medi 2010, rhoddais fy marn ar gyfrifon yr Awdurdod. Deuthum i'r casgliad fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2010 ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion a'i lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

16. Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau'r archwiliad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Roedd y ffurflen wedi'i llunio'n briodol ac nid oedd unrhyw faterion o bwys i gyflwyno adroddiad arnynt.

17. Bydd gofynion newydd yn cael eu cyflwyno yn fuan o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i baratoi ar gyfer y newidiadau hyn ac addasiadau eraill sy'n ofynnol o dan y Safonau hyn.

## Gweithredodd yr Awdurdod o fewn ei gyllideb refeniw ar gyfer 2009-10, ond mae'n wynebu heriau ariannol anodd yn y dyfodol

18. Mae gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw a pharhaodd hyn yn 2009-10. Cafwyd gwariant net o £89.6 miliwn yn erbyn cyllideb wreiddiol o £90.2 miliwn. Trosglwyddwyd y gwarged o £0.6 miliwn i gronfeydd wrth gefn.

19. Mae'r Awdurdod wedi parhau i gael adroddiadau rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ar wariant a'r sefyllfa o'i chymharu â'r gyllideb. Rhagamcanodd yr adroddiad ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Gorffennaf 2010 mai'r canlyniad a ragwelwyd ar gyfer 2010-11 oedd gwarged o £923,000 yn erbyn cyllideb ddiwygiedig 2010-11.

20. Mae aelodau a swyddogion yn parhau i adolygu cronfeydd wrth gefn yn flynyddol i sicrhau bod y rhesymau dros eu sefydlu yn parhau i fod yn ddilys a bod y swm a neilltuwyd yn seiliedig ar dybiaethau realistig o angen. Mae Arddangosyn 2 yn nodi, ar 31 Mawrth 2010, fod gan yr Awdurdod tua £22.0 miliwn mewn cronfeydd arian parod wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd cyffredinol wrth gefn. Roedd cronfeydd arian parod wrth gefn wedi lleihau £2.9 miliwn yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r disgwyl.

21. Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gynhaliwyd ym mis Hydref 2010 yn golygu bod gan yr Awdurdod heriau anodd o ran rheoli eu sefyllfa ariannol yn y byrdymor a'r tymor canolig. Fodd bynnag, dylai lefelau iach y cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd a'r trefniadau cadarn sydd ar waith ar gyfer rheoli'r sefyllfa ariannol olygu bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hyn a mynd i'r afael â hwy.

**Arddangosyn 2: Cronfeydd arian parod wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd cyffredinol wrth gefn yr Awdurdod**

| | 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| Cronfa gyfalaf | 2,513 | 1,782 |
| Refeniw a glustnodwyd | 19,966 | 17,816 |
| Cyffredinol | 2,425 | 2,435 |
| **Cyfanswm** | **24,904** | **22,033** |

*Ffynhonnell: Cyfrifon Archwiliedig Awdurdod Heddlu Dyfed Powys 2009/10*

## Roedd gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol

22. Mae gan yr Awdurdod hanes o brosesau rheoli ariannol effeithiol. Yn benodol, deuthum i'r casgliadau canlynol:

- cafwyd bod y trefniadau i gynnal y systemau rheolaeth fewnol yn effeithiol;
- fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyflawni'r safonau proffesiynol gofynnol ac felly roedd yn bosibl i ni ddibynnu ar ei waith, yn ôl y bwriad;
- cafwyd bod y trefniadau ar gyfer sicrhau mai dim ond lle y mae darpariaeth benodol iddo ymgymryd â thrafodion y mae'r Awdurdod yn gwneud hynny ar waith a'u bod wedi parhau i weithredu'n effeithiol; a
- chafwyd bod fframwaith moesegol yr Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol ynghyd â'r trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll a llygredd.

23. Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn 2010-11.

## Roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn addas at y diben

24. Mae fy adolygiad o systemau ariannol yr Awdurdod wedi cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a lle y bo angen, profi'r ffordd y gweithredir rheolaethau mewnol neu ddibynnu ar waith archwilio mewnol am sicrwydd bod y rheolaethau yn effeithiol.

25. Deuthum i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig yr Awdurdod i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Mae rhai mân feysydd ar gyfer gwella, a drafodwyd gyda'r rheolwyr, ac mae camau gweithredu priodol eisoes yn cael eu hystyried a'u cymryd. Nid oes materion penodol y mae angen i mi dynnu sylw'r aelodau atynt.

# Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ategu'r defnydd effeithiol o adnoddau ond ceir gwendidau o ran rheolaethau o fewn y polisi adleoli uwch swyddogion

## Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2009-10 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

26. Wrth archwilio cyfrifon yr Awdurdod bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun ei fod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghasgliad ffurfiol ar drefniadau Gwerth am Arian yr Awdurdod ar gyfer 2009-10 yn Atodiad 1.

27. Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon blynyddol, mae ffynonellau pwysig eraill o sicrwydd wedi deillio o waith perfformiad ac arolygu a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

28. Roedd y Swyddog Atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith, rwyf wedi gwerthuso systemau'r Awdurdod yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y dull hwn yn fanwl yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

29. Yn ystod 2009-10 diddymodd y llywodraeth glymblaid newydd y broses flynyddol ar gyfer asesu Defnydd yr Heddlu o Adnoddau. Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi cael asesiadau cadarnhaol ac mae'r gwaith a wnaed gennym yn ystod 2009-10 i lunio ein barn ar drefniadau Gwerth am Arian yr Awdurdod wedi rhoi sicrwydd bod y prosesau cadarn a roddwyd ar waith wedi parhau i weithredu'n effeithiol yn 2009-10.

## Ceir gwendidau o ran y rheolaethau o fewn polisi adleoli uwch swyddogion yr Awdurdod

30. Yn hanesyddol, mae'r Awdurdod wedi ei chael hi'n anodd denu nifer fawr o ymgeiswyr am unrhyw swydd uwch swyddog a hysbysebir. Cred mai'r rheswm am hyn yw'r cyflogau cymharol isel a delir am y swyddi hyn yn ogystal â natur wledig ardal yr heddlu.

31. Er mwyn ceisio annog nifer uwch o bobl i wneud cais am y swyddi hyn, cymeradwywyd polisi Pecyn Adleoli Prif Swyddogion diwygiedig gan yr Is-bwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth ym mis Mai 2009. Roedd y polisi yn gwella'r taliadau a oedd ar gael i uwch swyddogion.

32. Rydym wedi cynnal adolygiad o'r polisi hwn ac wedi dod i'r casgliad bod taliadau wedi'u gwneud yn unol â'r polisi. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd lle y gellid atgyfnerthu'r rheolaethau o fewn y polisi i roi sicrwydd i'r Awdurdod bod taliadau yn briodol ac yn unol â'r polisi.

33. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, gwnaethom ystyried gofynion rheoliadau'r Heddlu 2003 a'u penderfyniadau cysylltiedig yn ogystal ag adolygu nifer o bolisïau Awdurdodau eraill yr Heddlu.

34. Mae'r meysydd penodol lle y gellid gwella'r polisi fel a ganlyn:

- Nid yw'r polisi yn pennu terfyn amser ar gyfer hawlio gwariant. Byddai cyflwyno terfyn amser ar gyfer gwneud hawliadau yn gwella cadernid y rheolaethau ac yn helpu i sicrhau mai dim ond gwariant sy'n gysylltiedig â'r broses adleoli wirioneddol a gaiff ei hawlio.
- Dylid cynnwys mwy o fanylion yn y polisi o ran y mathau o wariant y gellir eu hawlio. Byddai hyn yn osgoi dryswch o ran pa fathau o wariant y mae gan unigolion yr hawl i gael ad-daliadau ar eu cyfer.
- Mae angen mwy o eglurder er mwyn diffinio rolau a chyfrifoldebau penodol o fewn y polisi. Dylai hyn gynnwys pwy sy'n gyfrifol am gymeradwyo lwfansau, yn ogystal ag ardystio a herio eitemau unigol o wariant.
- Mae'r polisi yn caniatáu i hyd at £10,000 gael ei dalu fel lwfans dewisol am dreuliau achlysurol i brif swyddog. Fodd bynnag, mae'r polisi yn nodi er bod yn rhaid i'r swyddog hunanardystio yr aed i gostau'r lwfans mewn perthynas â'r broses adleoli, mae hefyd yn nodi na fydd angen darparu derbynebion penodol. Rydym yn ystyried bod hyn yn wendid sylweddol o ran sicrhau mai dim ond gwariant cymwys a ad-delir gan yr Awdurdod, ac mae hefyd yn golygu bod yr Awdurdod yn agored i'r risg y gwneir honiadau ei fod yn defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd amhriodol.
- Mae'r polisi yn caniatáu i uwch swyddog dderbyn hyd at uchafswm o 55 y cant o'i gyflog fel pecyn adleoli. Mae'r ganran hon yn sylweddol uwch na'r ganran yn yr heddluoedd eraill a adolygwyd gennym ac fe'i cynyddwyd i helpu i ddenu ymgeiswyr.

35. Mae penderfyniadau rheoliadau'r Heddlu 2003 yn dynodi mai dim ond lle mae'r gwariant yn angenrheidiol, yn rhesymol ac wedi'i ategu gan dderbynneb y dylid ad-dalu treuliau symud ac felly dylai'r Awdurdod adolygu'r polisi hwn er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd uchod a sicrhau ei fod yn parhau'n briodol.

## Atodiad 1

# Casgliad ar drefniadau Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol**

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Swyddog Atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd**

Mae gennyf gyfrifoldeb o dan Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 i ddod i'r casgliad, o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol yr Awdurdod, p'un a wyf yn fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ganddo ar waith yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym Mharagraff 48 o'r Cod.

Cyflwynaf adroddiad os yw materion o bwys wedi dod i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

**Casgliad**

Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2009-10 i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, ba drefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw.

Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

Ar sail Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ac o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifiwyd uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2009-10, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i ategu'n briodol ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Yn seiliedig ar y gwaith a gynhaliwyd, ac yn gyfyngedig iddo, rwyf wedi codi materion amrywiol, ac wedi gwneud argymhellion i wella trefniadau'r Awdurdod. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn fy Llythyr Archwilio Blynyddol i'r Awdurdod.

| | |
|---|---|
| Anthony Barrett | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Archwilydd Penodedig | 24 Heol y Gadeirlan |
| Tachwedd 2010 | Caerdydd CF11 9LJ |

## Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2009-10 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Awdurdod wedi sefydlu modd o gyfathrebu â'r boblogaeth leol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle y bo angen, a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni o ran ei ddefnydd o adnoddau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Awdurdod? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol ar gyfer gweithredu a, lle y bo angen, gyflwyno adroddiad i aelodau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

## Atodiad 3

# Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy llythyr archwilio diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Strategaeth Archwilio | Chwefror 2010 |
| Archwiliad o'r Datganiadau Cyfrifyddu -  Adroddiad i aelodau | Medi 2010 |
| Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Tachwedd 2010 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Tachwedd 2010 |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk